# Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl: Rhaglen Arddangos i Gymru

# Pecyn Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer Awdurdodau Lleol

### Rhagymadrodd

Dyfarnodd Llywodraeth Cymru a Sefydliad KPMG ar y cyd gyllid i weithredu a chyflenwi'n rhaglen Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl arloesol mewn dau safle arddangos yng Nghymru. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys cyfle i wella deilliannau'n aruthrol i deuluoedd sydd â phlant ar gyrion gofal. Mae ein rhaglen yn ceisio gwreiddio a chynnal darpariaeth ymhellach na'r cyfnod arian grant, a dangos model a allai ehangu'n gyflym ar gyfer rhagor o gyflwyno fesul cam yng Nghymru a'r tu hwnt.

Mae gan Y Rhwydwaith Maethu hanes maith o lwyddiant o ddarparu rhaglenni arloesol a ddaw â gwelliannau graddfa fawr a chynaliadwy i fywydau plant a theuluoedd maeth. Cafodd Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl ei threialu a'i chyflenwi mewn partneriaeth ag Yddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol South Eastern yng Ngogledd Iwerddon ers dros bum mlynedd. Gwnaethom gyflwyno model teulu'r Mockingbird i'r Deyrnas Unedig yn 2015, gan sefydlu rhwydweithiau cymorth i deuluoedd estynedig rhwng grwpiau o deuluoedd maeth ac aelwydydd cysylltiedig. Yng Nghymru, gwnaethom arwain consortiwm o sefydliadau elusengar i gyflenwi Hyder mewn Gofal, sef rhaglen o hyfforddiant a gyrhaeddodd dros 1,300 o ofalwyr maeth. Yn fwy diweddar, rydym wedi gweithio'n gydweithredol â thimau rhanbarthol ac awdurdodau lleol ar Maethu Lles, ymagwedd amlddisgyblaethol tuag at gynorthwyo a gwella deilliannau i blant a phobl ifanc.

### Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl

Mae Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl yn ymagwedd arloesol tuag at gynorthwyo teuluoedd ar gyrion gofal, yn dangos gostyngiad yn niferoedd plant a ddaw i ofal, a gwell deilliannau i blant a theuluoedd. Wrth ei chraidd y mae gofalwyr maeth cymorth i deuluoedd arbenigol ac sydd wedi'u hyfforddi'n dda, sy'n darparu cymorth ataliol, â chyfyngiad ar amser i hyd at bedwar o deuluoedd ar unrhyw adeg benodol.

Cynlluniwyd y model i fod yn hyblyg, gan gynnig cymorth cofleidiol, dan arweiniad anghenion i deuluoedd, gydag ymagwedd o feithrin ac sy'n wybodus am drawma. Gall y tîm prosiectau gamu i'r adwy yn chwim i ddiwallu anghenion neu argyfyngau newydd teuluoedd a chamu yn ôl i lefelau is o gymorth, unwaith y cânt eu cynorthwyo i ganfod datrysiadau parhaol. Mae ei ffocws ar ymglymiad cymunedol yn sicrhau y caiff teuluoedd eu grymuso i ddatblygu rhwydwaith cymorth cynaliadwy. Mae hefyd yn ennyn teuluoedd i gydgynhyrchu'r cymorth a'r gweithgareddau fel eu bod yn diwallu'u hanghenion orau.

Er bod y model partneriaeth wedi'i wreiddio o fewn gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, gyda'r Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd a oruchwylir gan weithiwr cymdeithasol, mae'r ffaith ei fod yn cael ei ddarparu gan elusen annibynnol ag ymagwedd a seilir ar anghenion yn helpu i orchfygu rhwystrau sy'n wynebu llawer o deuluoedd wrth ymgysylltu.

## Staffio a strwythur

Goruchwylir y rhaglen gan ein Cyfarwyddwr Cymru, gyda chyfarwyddyd arbenigol gan ein Rheolwr yn Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl (SUSD) y Deyrnas Unedig. Byddwn yn penodi Rheolwr Rhaglenni amser llawn ar gyfer SUSD yng Nghymru, fydd yn gyfrifol am gyflawni ledled y ddau safle peilot. Bydd yna dîm SUSD ym mhob un o'r Awdurdodau Lleol sy'n cymryd rhan.

## Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd

Mae'r Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd (FSFCs) yn mentora'u teuluoedd ac yn cynnig seibiannau byrion i blant, gan gynnig sefydlogrwydd ac yn rhoi amser i rieni roi sylw i'w heriau gyda chymorth. Maent yn darparu adborth am eu hymglymiad wrth y teuluoedd yn ystod cyfarfodydd adolygu.

Gallai'r Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd fod yn ofalwyr maeth profiadol o fewn y gwasanaeth sy'n dymuno datblygu'u sgiliau ac archwilio cyfle newydd o fewn maethu. Neu fel arall, gellir eu recriwtio'n benodol i'r rôl hon yn SUSD ond mae'n rhaid iddynt sicrhau cymeradwyaeth cyn dechrau yn y rôl. Mae'n hollbwysig bod gan y Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd y sgiliau a'r ymrwymiad i weithio â rhieni a phlant, fel ei gilydd, fel rhan o'r rhaglen SUSD. Cynhwysir rôl-ddisgrifiad ar gyfer y Gofalwr Maeth Cymorth i Deuluoedd yn y pecyn hwn.

Bydd hyfforddiant penodol ar gyfer rôl SUSD a chyllid ar gyfer pob un Gofalwr Maeth Cymorth i Deuluoedd yn cael eu darparu gan Y Rhwydwaith Maethu fel rhan o'r rhaglen.

## Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol

Bydd angen rhyddhau'r Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol (SSW) gan yr awdurdod lleol i gymryd rhan yn amser llawn yn rhaglen SUSD gan barhau i gael ei gyflogi gan yr awdurdod lleol. Byddant yn goruchwylio'r Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd, gan ymgymryd â'r holl ofynion rheoliadol a datblygu'u set o sgiliau fel rhan o wasanaeth SUSD. Byddant yn mynychu cyfarfodydd statudol proffesiynol ar gyfer y teuluoedd sy'n gysylltiedig â SUSD ac yn cynorthwyo gyda chadeirio'r cyfarfodydd cynllunio ac adolygu cychwynnol ar gyfer y teuluoedd hynny fel rhan o'r rhaglen. Cydnabyddir y Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol hefyd fel aelod hanfodol o dîm y rhaglen SUSD, yn cynorthwyo â holl ddigwyddiadau a gweithgareddau SUSD, e.e., mynychu diwrnodau gweithgareddau teuluol.

## Arweinydd Rhanbarthol SUSD

Ac yntau'n cael ei gyflogi gan Y Rhwydwaith Maethu, mae swyddog y rhaglen Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl (SUSD) yn darparu hyfforddiant am ymlyniad a rhianta i rieni, mae'n cynnal grwpiau meithrin therapiwtig i blant, sesiynau gweithgareddau i deuluoedd yn datblygu rhwydweithiau o gefnogaeth gan gymheiriaid, ac mae'n nodi ac yn sicrhau ffynonellau cymorth o fewn y gymuned leol. Mae'r swyddog yn gweithio â theuluoedd i ganfod datrysiadau ymarferol i'r materion y maent yn eu hwynebu. Maent hefyd yn cynorthwyo'r cyfarfodydd cynllunio ac adolygu â theuluoedd, ochr yn ochr â'r Gofalwr Maeth Cymorth i Deuluoedd a Gweithiwr Cymdeithasol.

**Grŵp Llywio SUSD**

Bydd grŵp llywio'r rhaglen yn hwyluso ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan adolygu cynnydd a rhannu dysg. Bydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Rhwydwaith Maethu, tîm maethu'r awdurdodau lleol, arweinydd (arweinwyr) cymorth i deuluoedd a diogelu, gofalwyr maeth ac - ymhen amser - rhieni a gymerodd ran mewn SUSD.

Bydd y grŵp llywio'n cyfarfod bob deufis yn ystod y cyfnod gweithredu ac wedyn yn newid i gyfarfodydd chwarterol unwaith y bydd y rhaglen wedi'i sefydlu. Argymhellwn fod arweinydd Diogelu'n cadeirio'r grŵp hwn, er bod y gwasanaeth ei hun y dod o fewn Maethu. Mae hyn yn dangos y cydweithredu a'r gweithio mewn partneriaeth sy'n ofynnol i sicrhau bod SUSD yn llwyddiannus.

**Pa effaith y mae SUSD wedi'i chael?**
Yn rhaglen Gogledd Iwerddon, mae pedwar gofalwr maeth cymorth i deuluoedd wedi cefnogi 73 o deuluoedd (96 o oedolion a 151 o blant). Caiff y mwyafrif o blant a atgyfeirir i SUSD eu hatgyfeirio oherwydd bod yna risg o dderbyn i ofal; caiff atgyfeiriadau hefyd eu derbyn i gynorthwyo cynlluniau ailuno i aduno teuluoedd lle mae plant eisoes wedi'u lleoli mewn gofal. O'r 151 o blant sy'n gysylltiedig â'r peilot, dim ond 11 a symudwyd i ofal: aeth pedwar o'r plant hyn i leoliadau perthnasau â chymorth gan SUSD ac aeth un i leoliad byrdymor. Cynorthwywyd tri o blant i symud allan o ofal preswyl yn ôl at eu teulu biolegol.

"Y gwasanaeth hwn yw'r enghraifft orau o ymarfer wedi'i hysbysu gan drawma a welais."

Una Lernihan (Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon)

"Mae'r gwasanaeth hwn yn gwirioneddol gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn ddiogel ac yn iawn, yn enwedig yn ystod y pandemig pan fo cynifer o wasanaethau eraill yn crebachu neu'n cau."

Pennaeth Diogelu, Ymddiriedolaeth South Eastern Trust

Canfu gwerthuso annibynnol ddeilliannau cadarnhaol ychwanegol, yn cynnwys lefelai llai o gymorth i deuluoedd sydd ei angen, mwy o bresenoldeb yn yr ysgol, mwy o gyflogaeth ymysg rhieni a rhieni'n ennill sgiliau bywyd newydd. Gwnaeth dadansoddiad cost a budd annibynnol pellach nodi arbedion cost o £1.5 am bob £1 a fuddsoddir. Mae arbedion cyfnod hwy o lai o angen am wasanaethau cymorth yn debygol o fod yn fwy byth.

**Gwerthuso i Gymru**
Er mwyn pennu i ba raddau y mae'r rhaglen yn cyflawni'i hamcanion yng Nghymru, bydd gwerthusiad annibynnol yn cael ei wneud.

| Gweithgaredd | Dyddiad |
|---|---|
| Mae Datganiad o ddiddordeb yn agor | 5 Tachwedd 2022 |
| Mae Datganiad o ddiddordeb yn cau | 5 Rhagfyr 2022 |
| Nodi awdurdodau llwyddiannus | w/c 12 Rhagfyr |
| Gweithredu a hyfforddi | Ionawr i Fawrth 2023 |
| Mae atgyfeiriadau i SUSD yn dechrau | Ebrill 2023 |

## Datganiad o Ddiddordeb

Mae'r Rhwydwaith Maethu yn awr yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan y 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru i nodi dau awdurdod i fod yn bartneriaid i dreialu'r ymagwedd arloesol hon fel rhan o'n rhaglen arddangos.

.

## Gofynion cyfranogi

Bydd ymrwymiad gan y tîm maethu, y timau diogelu a chymorth i deuluoedd, yn ogystal â gofalwyr maeth, rhieni a'r plant a'r bobl ifanc eu hunain, yn hanfodol os yw'r rhaglen am fod o wir werth. Bydd ar yr awdurdod lleol angen ystyried yr ymrwymiad i adnoddau i gynorthwyo elfennau canlynol y rhaglen:

- Trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu;
- Cyfathrebu â rhanddeiliaid lleol;
- Recriwtio gofalwyr maeth fel Gofalwyr Maeth Cymorth i Deuluoedd;
- Cyfranogiad teulu, plant a phobl ifanc;
- Cymorth ymarferol ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddi a datblygu, e.e., darparu mannau cyfarfod.

Yn bwysicach na dim, bydd hi'n ofynnol hefyd i'r awdurdod lleol ddarparu ymarferwr gwaith cymdeithasol profiadol i ymgymryd â'r rôl Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol, a heb lwyth achosion arall heblaw am yr achos peilot.

## Amserlenni Datganiadau o Ddiddordeb

**Bydd yn rhaid cwblhau a dychwelyd y templed amgaeedig at Sarah Thomas, Cyfarwyddwr Cymru, erbyn 5 Rhagfyr 2022 os hoffech gael eich ystyried fel awdurdod lleol sy'n bartner ar gyfer y rhaglen.**

Bydd panel, fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Maethu Cymru a'r Rhwydwaith Maethu, yn adolygu'r holl ddatganiadau o ddiddordeb, a bydd cyfweliadau rhestr fer yn cael eu cynnal â chynrychiolwyr enwebedig o'r Awdurdod Lleol ar **15 & 16 Rhagfyr.**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:

**Sarah Thomas**
Cyfarwyddwr Cymru
Ffôn: 029 2044 0940
e-bost: wales@fostering.net